

**Ofcom Wales Advisory Committee**  
**Consultation Response: Ofcom Plan of Work 2022/23**

### **Introduction**

The Ofcom Wales Advisory Committee (ACW) was established by the 2003 Communications Act to provide advice to Ofcom about the interests and opinions, in relation to communications matters, of people living in Wales. In responding to this Draft Ofcom Annual Plan of Work we have focussed on communications matters that are of direct concern to citizens and consumers living in Wales. Our aim will be to provide advice to Ofcom during the year ahead based on these concerns, taking account of Ofcom's themes, goals and priorities set out in the draft Plan of Work.

As in the rest of the UK, citizens and consumers in Wales expect to be able to access high-quality, reliable communications services. However, the Ofcom Connected Nations Report for Wales, published in December 2021 noted that, “given its topography and population distribution, the cost of constructing communications networks in Wales is significantly higher than the UK average. As a result, the availability of superfast broadband and mobile services is typically below the UK average and has been one of the most significant issues for consumers and elected representatives in Wales since Ofcom’s creation.<sup>1</sup>” Taken together, fixed and mobile voice services, reliable high speed fixed and mobile broadband, along with a broad range of high-quality media services and public service media content are now essential ingredients of a fully functioning civic society with Internet access now seen as an essential utility. Ofcom’s plan of work for the forthcoming year provides an opportunity for the Advisory Committee to consider its broad themes as they relate to the communications needs of citizens and consumers in Wales. We will also consider Ofcom’s work across the UK, paying regard to the common challenges faced by the UK nations and the proposed actions and objectives for Wales, set out in Section 4 of the Draft Plan.

### **Plan of Work: Ofcom’s Themes for 2022/23**

#### **1. Investment in strong, secure networks.**

We support Ofcom’s objective of ensuring that the UK’s communications networks are reliable and secure, particularly given society’s dependence on a wide range of Internet based services delivered for example, through fixed and mobile broadband and through mobile voice connectivity. In terms of the availability of services, there was a significant improvement in Wales during 2021, reflecting (as noted by Ofcom in the draft plan) a continued investment by operators in higher quality, faster networks. According to the Wales 2021 Connected Nations report, 27% of premises (covering a population of 0.4m) could access full fibre connections, an increase of 8% on 2020 and the highest year-on-year increase in full fibre coverage in Wales to date. 90% of Wales had access to good 4G geographic mobile coverage from at least one of the mobile operators, only 2 percentage points behind the UK average of 92%, and that 61% of geographic locations had coverage from all four operators. However, we note that, as stated in the report, in some more rural areas the cost of deploying full fibre will continue to be prohibitive. The ACW therefore intends to continue to monitor the availability of alternative solutions for rural Wales, such as Fixed Wireless Access (FWA) and the latest generation of satellites. For example, low orbit connected satellite networks such as

---

<sup>1</sup> [https://www.ofcom.org.uk/\\_data/assets/pdf\\_file/0025/229723/connected-nations-2021-wales.pdf](https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0025/229723/connected-nations-2021-wales.pdf), (overview and introduction).

Starlink<sup>2</sup> may be able to offer reasonable data speeds while overcoming the latency issues associated with traditional broadband services provided in the past by geo-stationary satellites.

Currently according to the Connected Nations Report, around 15,000 premises in Wales cannot get a ‘decent’ broadband service of at least 10Mbit/s download speed and 1Mbit/s upload speed from either fixed or fixed wireless networks. However, we note that this figure has reduced significantly from 18,000 premises stated in the 2020 Wales report and that these premises may be eligible to be connected under the universal broadband service. We therefore welcome Ofcom’s ongoing commitment as noted in A.2 of the plan to monitor the delivery of the Broadband USO by the designated providers (BT and KCOM) and Ofcom’s aim to understand how people’s connectivity needs will evolve in future.

## **2. Getting everyone connected.**

We will be monitoring Ofcom’s work as noted in A.2 in reporting progress to improve coverage under the Shared Rural Network programme and undertake work to check the accuracy of operators’ coverage predictions, particularly as Wales will be well placed to see a significant uplift in coverage via the SRN initiative in the period up to 2025. Through the SRN, 4G coverage in Wales from all MNOs should increase from 79% to 88% and that 4G coverage from at least one MNO will increase from 97% to 99%. The biggest increases in coverage will occur in the rural areas, Mid and West Wales, and North Wales where the 4G coverage from all MNOs will increase from 51% to 78% and 63% to 83% respectively<sup>3</sup>.

The pandemic has highlighted the importance of the postal sector in providing key services and we have heard of some concerns regarding the quality of postal services in the Welsh valleys. We will continue to engage with Ofcom staff to understand the nature of these issues and whether there may be any possible solutions that are worth pursuing. We note from the Plan that Ofcom will be conducting a review of the future of postal regulation and specifically, regulation around USO services, the bulk mail market, efficiency and financial sustainability of the USO, and of the broader parcels market. We will therefore closely examine Ofcom’s statement on these issues which is due to be published in summer 2022.

More broadly, we are aware, through the Connected Nations Report for Wales, that connectivity remains poor in some of the very hard to reach areas in Wales. The report estimates that approximately 7,850 premises in Wales cannot access either a decent fixed broadband service or good 4G coverage indoors and most of these properties are based in rural areas. We understand, from Ofcom data, there are premises that could benefit from alternative delivery technologies, but consumers are often unaware of the options available to them.

We note Ofcom’s ongoing programme of work to monitor the progress of the telecommunications industry in moving customers from the existing PSTN copper fixed line connections to new VOIP technology and its aim make sure people can realise the benefits quickly and are protected from harm or undue disruption. Stakeholders in several meetings of the Communications Consumer Hub for Wales have voiced concerns about the lack of awareness among vulnerable groups about the switch-over process and some related issues, such as the need for a reliable battery back-up for a VOIP based system when power-cuts occur. We therefore encourage Ofcom to work more

---

<sup>2</sup> <https://www.starlink.com/>

<sup>3</sup> Page 30, Connected Nations Wales Report 2021.

proactively in bringing together communication providers and UK Government to ensure there is appropriate coordination to protect and inform consumers and minimise disruption during the switch-over process.

Similarly, we note that concerns are beginning to emerge regarding the proposed switch-off of the 2G/3G mobile networks. We will therefore monitor and support Ofcom's work in liaising with industry and UK Government to ensure there are appropriate measures to protect consumers and ensure that disruption is minimised in the period when consumers migrate to 4G and 5G services.

### **3. Fairness for customers.**

In our response to Ofcom's Plan of Work last year, we stated that the issue of affordability of communications services was a major consideration for the ACW. This year we will continue to provide advice to Ofcom on this issue, taking account of the interests of citizens and consumers living in Wales. Average incomes in Wales are below the UK average and many communities are braced for increases in fuel costs due to a doubling of the consumer energy price cap and a rise announced in National Insurance rates. As an indication of the severity of the current crisis, the Welsh Government has recently doubled the payments under its Winter Fuel Support Scheme for people claiming benefits such as income support, universal credit and working tax credits<sup>4</sup>. In such an economic environment, it will be essential to ensure that people on very low incomes can continue to use the full range of essential communications services.

### **4. Enabling wireless services in the broader economy.**

The Ofcom Spectrum Management Strategy published in December 2020 included a commitment to further innovation in the development of new and existing frequency bands across the UK as well as in local areas. We have previously welcomed this emphasis on innovation and Ofcom's willingness to consider locally based and flexible licensing initiatives, including a facility to experiment with temporary licensing to free up spectrum for development and experimentation. We are therefore pleased to see Ofcom's commitment to reviewing how very high frequency spectrum will be managed, building on the flexible framework already developed as part of the Spectrum Strategy. The development of new connectivity options through local access licences, particularly within some of the sparsely populated rural areas in Wales, continues to be a viable option in developing innovative applications and services as these rural areas offer low risk environments with limited interference issues.

### **5. Supporting and developing UK media.**

Public Service Media continues to play a vital role in providing news and information to viewers and listeners living in Wales, particularly in relation to the work of the Welsh Parliament and Welsh Government. In this context, we look forward to Ofcom's publication, in spring this year, of content analysis research on the reporting of news on the UK networks conducted by Cardiff and Swansea Universities. The research aims to provide an independent assessment of how UK broadcast networks report on devolved policy issues on television and online. BBC Cymru Wales acts as the

---

<sup>4</sup> [tinyurl.com/4uhvyv8](https://tinyurl.com/4uhvyv8)

cornerstone to this provision and we have already been engaging with the Ofcom project team responsible for conducting the Periodic Review of the BBC, ahead of the UK Government's midterm review of the BBC Charter. We note that this work will include a review of Ofcom's regulation of the BBC's regulatory framework and Operating Licence.

In our response to the Ofcom Small Screen Big Debate consultation, we suggested that, in relation to the BBC's current licence obligations for Wales, "a new regulatory environment would provide BBC Cymru Wales with an opportunity to take a more holistic overview of its output, particularly as broadcast live television viewing is generally decreasing, while online on demand viewing, for example via BBC iPlayer, is increasing significantly." While we did not believe that the hours requirements for the provision of news and current affairs for Wales should be abandoned, we suggested that for non-news output, the broadcaster should, arguably, be freed up to make investment decisions that bring higher quality to the screen, rather than always being tied to specific hours-based delivery requirements. We therefore look forward to further engage with the Ofcom project team to see if more creative options exist for framing non-news requirements by placing a greater emphasis on more detailed reporting requirements rather than meeting hours-based output quotas.

In this context, plurality of supply in news remains a key issue and it is vital in our view that both ITV Cymru Wales and BBC Cymru Wales continue to provide comprehensive news and current affairs services for viewers and listeners in Wales. We will therefore also seek to engage with the Ofcom team responsible for the relicensing of the Channel 3 service for Wales, particularly in relation to the report that Ofcom will produce for the Secretary of State by June 2022 on the sustainability of ITV's current obligations.

In terms of distribution, we note that S4C has reached agreement with the BBC for high-definition carriage on Freeview and the new service has recently launched on Freeview Channel 110 in Wales. The service is limited on weekdays as due to multiplex capacity constraints it can only be broadcast after 7pm, but on weekends the service is on the air from 2pm, enabling the broadcaster to provide coverage of key sporting events in high definition, including the current 2022 Guinness Six Nations Rugby Tournament.

We welcome Ofcom's continuing initiatives to ensure that the television and radio workforce reflects the diversity of the population both in Wales, and across the UK, in terms of its ethnic and linguistic mix and the proportion of people with disabilities. This is an important priority for Ofcom and we support the ambition to address areas of underrepresentation and secure more senior, decision-making roles for disabled people across industry and people from minority ethnic groups. This year we have agreed to take part in a mentoring scheme, in which an Ofcom staff member, from an ethnic minority background, will join the ACW as an observer. We believe this person, who has very extensive management experience, will provide a very valuable contribution to the work of the committee.

## **6. Serving and protecting audiences.**

We note with interest Ofcom's intention to continue to expand listener choice by licensing new small-scale DAB digital radio services throughout the UK and renew the licences for the multiplexes which carry local DAB. Last year the Media Nation report for Wales noted that small-scale DAB radio multiplex licences for Wales had been awarded for Cardiff and the Welsh Valleys. We support Ofcom's ambition in this area as we believe that small scale DAB will give community radio and

smaller commercial radio stations an affordable pathway to digital transmission, eventually replacing analogue services delivered via FM.

We also support Ofcom's aims to work on community and commercial radio coverage improvements and extensions for existing analogue services. Ofcom also aims to enable the delivery of audio content over IP. According to the Media Nation report, published last summer, nearly six in ten homes in Wales at that time had smart speakers (57%) with the Amazon Echo being the most popular type, found in 72% of homes in Wales that have a smart speaker. Although music streaming services such as Spotify were very popular among survey respondents (70%), 61% of respondents also listened to live radio this way.

#### **7. Establishing regulation of online safety.**

In the run up to the new Online Harms legislation becoming law we recognise that Ofcom will have to build public awareness of its proposed future role. We will continue to engage with stakeholders in Wales, for example in relation to online safety through our membership of the Wales Internet Safety Partnership (WISP), which is supported by the Welsh Government and acts as useful forum for exchanging information and best practice in this area, with a specific focus on the safety of children and young people online. ACW members have also regularly attended online seminars and discussions in this area, for example through Ofcom's Making Sense of Media initiative.

#### **Ofcom's Plan of Work for Wales**

We will continue to support the work of Ofcom's team in Wales by helping to engage with stakeholders. For example, taking account of Ofcom's review of its MOU with the Welsh Government, Welsh Parliament and the Office of the Secretary of State for Wales, we will assist if required, in engaging with these key stakeholders. We will also support Ofcom in engaging more widely with stakeholders in Wales, particularly now that the pandemic appears to be receding, hopefully enabling face to face meetings to be held in the future. We will also advise the Ofcom Wales office on matters such as improved connectivity for business parks in Wales, initiatives involving the creative industries, access issues around communications and initiatives such as the Welsh Government's Barrier Busting Taskforce and the impact of the Share Rural Network on mobile coverage in Wales. As in previous years we will continue to respond to a range of Ofcom consultations during the year and assist the Wales Office in promoting awareness of Ofcom's services in the Welsh language.

**Ofcom ACW  
February 2022**

**Pwyllgor Cyngori Ofcom Cymru**  
**Ymateb i'r Ymgynghoriad: Cynllun Gwaith Ofcom 2022/23**

### Cyflwyniad

Sefydlwyd Pwyllgor Cyngori Ofcom Cymru gan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 i roi cyngor i Ofcom am fuddiannau a safbwytiau pobl sy'n byw yng Nghymru mewn perthynas â materion cyfathrebu. Wrth ymateb i Gynllun Gwaith Blynnyddol Drafft Ofcom, rydym wedi canolbwytio ar faterion cyfathrebu sy'n peri pryer uniongyrchol i ddinasyddion a defnyddwyr sy'n byw yng Nghymru. Ein nod fydd rhoi cyngor i Ofcom yn ystod y flwyddyn i ddod ar sail y pryerdon hyn, gan ystyried themâu, nodau a blaenoriaethau Ofcom a nodir yn y Cynllun Gwaith drafft.

Fel yng ngweddill y DU, mae dinasyddion a defnyddwyr yng Nghymru yn disgwl gallu cael gafael ar wasanaethau cyfathrebu dibynadwy o ansawdd uchel. Fodd bynnag, nododd Adroddiad Cysylltu'r Gwledydd Ofcom ar gyfer Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2021 fod cost adeiladu rhwydweithiau cyfathrebu yng Nghymru yn sylweddol uwch na chyfartaledd y DU, "o ystyried ei thopograffeg a dosbarthiad ei phoblogaeth. O ganlyniad, mae argaeledd band eang cyflym iawn a gwasanaethau symudol fel arfer yn is na chyfartaledd y DU ac mae wedi bod yn un o'r materion pwysicaf i ddefnyddwyr a chynrychiolwyr etholedig yng Nghymru ers creu Ofcom.<sup>5</sup>" Gyda'i gilydd, mae gwasanaethau llais sefydlog a symudol, band eang sefydlog a symudol cyflymder uchel dibynadwy, ynghyd ag amrywiaeth eang o wasanaethau cyfryngau o ansawdd uchel a chynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus bellach yn elfennau hanfodol o gymdeithas ddinesig sy'n gweithredu'n llawn, gyda mynediad i'r Rhyngrwyd bellach yn cael ei ystyried yn gyfleuster hanfodol. Mae cynllun gwaith Ofcom ar gyfer y flwyddyn i ddod yn rhoi cyfre i'r Pwyllgor Cyngori ystyried ei themâu eang fel y maent yn berthnasol i anghenion cyfathrebu dinasyddion a defnyddwyr yng Nghymru. Byddwn hefyd yn ystyried gwaith Ofcom ledled y DU, gan roi sylw i'r heriau cyffredin sy'n wynebu gwledydd y DU a'r camau gweithredu a'r amcanion arfaethedig ar gyfer Cymru, sydd wedi'u nodi yn Adran 4 y Cynllun Drafft.

### Cynllun Gwaith: Themâu Ofcom ar gyfer 2022/23

#### 1. Buddsoddi mewn rhwydweithiau cryf a diogel.

Rydym yn cefnogi amcan Ofcom o sicrhau bod rhwydweithiau cyfathrebu'r DU yn ddibynadwy ac yn ddiogel, yn enwedig o ystyried dibyniaeth cymdeithas ar amrywiaeth eang o wasanaethau Rhyngrwyd sy'n cael eu darparu, er enghraift, drwy fand eang sefydlog a symudol a drwy gysylltiad llais symudol. O ran argaeledd gwasanaethau, cafwyd gwelliant sylweddol yng Nghymru yn ystod 2021, gan adlewyrchu buddsoddiad parhaus gan weithredwyr mewn rhwydweithiau cyflymach o ansawdd uwch (fel y nodir gan Ofcom yn y cynllun drafft). Yn ôl adroddiad Cysylltu'r Gwledydd Cymru 2021, gallai 27% o adeiladau (sy'n cynnwys poblogaeth o 0.4m) gael gafael ar gysylltiadau ffeibr llawn, cynnydd o 8% ar 2020 a'r cynnydd uchaf o un flwyddyn i'r llall mewn darpariaeth ffeibr llawn yng Nghymru hyd yma. Roedd gan 90% o Gymru fynediad at ddarpariaeth symudol 4G ddaearyddol dda gan o leiaf un o'r gweithredwyr symudol, dim ond 2 bwynt canran y tu ôl i gyfartaledd y DU, sef 92%, ac roedd gan 61% o'r lleoliadau daearyddol hynny ddarpariaeth gan y pedwar gweithredwr. Fodd bynnag, nodwn, fel y nodwyd yn yr adroddiad, mewn rhai ardaloedd mwy gwledig bydd cost cyflwyno ffeibr llawn yn parhau i fod yn afresymol o ddrud. Felly, mae CCC

---

<sup>5</sup> [https://www.ofcom.org.uk/\\_data/assets/pdf\\_file/0025/229723/connected-nations-2021-wales.pdf](https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0025/229723/connected-nations-2021-wales.pdf), (trosolwg a chyflwyniad).

yn bwriadu parhau i fonitro argaeledd atebion amgen ar gyfer Cymru wledig, fel Mynediad Di-wifr Sefydlog (FWA) a'r genhedlaeth ddiweddaraf o loerennau. Er enghraifft, efallai y bydd rhwydweithiau lloeren isel fel Starlink<sup>6</sup> yn gallu cynnig cyflymder data rhesymol gan oresgyn y problemau oedi sy'n gysylltiedig â gwasanaethau band eang traddodiadol a ddarparwyd yn y gorffennol gan loerennau geosefydlog.

Ar hyn o bryd, yn ôl Adroddiad Cysylltu'r Gwledydd, ni all tua 15,000 o adeiladau yng Nghymru gael gwasanaeth band eang 'iawn' sy'n cynnwys cyflymder llwytho i lawr o 10Mbit yr eiliad o leiaf a chyflymder llwytho i fyny o 1Mbit yr eiliad o rwydweithiau sefydlog neu ddi-wifr sefydlog. Fodd bynnag, rydym yn nodi bod y ffigur hwn wedi gostwng yn sylweddol o 18,000 o adeiladau a nodwyd yn adroddiad Cymru 2020 ac y gallai'r adeiladau hyn fod yn gymwys i gael eu cysylltu o dan y gwasanaeth band eang cyffredinol. Felly, rydym yn croesawu ymrwymiad parhaus Ofcom fel y nodir yn A.2 y cynllun i fonitro'r gwaith o gyflawni'r USO Band Eang gan y darparwyr dynodedig (BT a KCOM) a nod Ofcom i ddeall sut bydd anghenion cysylltedd pobl yn esblygu yn y dyfodol.

## 2. Cael pawb wedi cysylltu.

Byddwn yn monitro gwaith Ofcom fel y nodir yn A.2 wrth adrodd ar gynnydd i wella darpariaeth o dan y rhaglen Rhwydwaith Gwledig a Rennir ac yn gwneud gwaith i wirio cywirdeb rhagfynegiadau darpariaeth gweithredwyr, yn enwedig gan y bydd Cymru mewn sefyllfa dda i weld cynnydd sylweddol yn y ddarpariaeth drwy'r cynllun Rhwydwaith Gwledig a Rennir yn y cyfnod hyd at 2025. Drwy'r SRN, dylai darpariaeth 4G yng Nghymru gan bob MNO gynyddu o 79% i 88% a bydd darpariaeth 4G gan o leiaf un gweithredwr rhwydwaith symudol yn cynyddu o 97% i 99%. Bydd y cynnydd mwyaf mewn darpariaeth yn digwydd yn yr ardaloedd gwledig, Canolbarth a Gorllewin Cymru, a Gogledd Cymru lle bydd y ddarpariaeth 4G gan bob MNO yn cynyddu o 51% i 78% a 63% i 83% yn y drefn honno<sup>7</sup>.

Mae'r pandemig wedi tynnu sylw at bwysigrwydd y sector post o ran darparu gwasanaethau allweddol ac rydym wedi clywed am rai pryderon yng hylch ansawdd gwasanaethau post yn y Cymoedd. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â staff Ofcom i ddeall natur y materion hyn ac a oes unrhyw atebion posibl sy'n werth mynd ar eu trywydd. Rydym yn nodi o'r Cynllun y bydd Ofcom yn cynnal adolygiad o ddyfodol rheoleiddio gwasanaethau post ac yn benodol, rheoleiddio yng hylch gwasanaethau USO, y farchnad post swmp, effeithlonrwydd a chynaliadwyedd ariannol y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol, a'r farchnad barseli ehanguach. Felly, byddwn yn edrych yn ofalus ar ddatganiad Ofcom ar y materion hyn a fydd yn cael ei gyhoeddi yn ystod haf 2022.

Yn fwy cyffredinol, rydym yn ymwybodol, drwy Adroddiad Cysylltu'r Gwledydd ar gyfer Cymru, fod cysylltedd yn dal yn wael mewn rhai o'r ardaloedd anodd iawn eu cyrraedd yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn amcangyfrif na all tua 7,850 o adeiladau yng Nghymru gael mynediad at wasanaeth band eang sefydlog teilwng na darpariaeth 4G dda dan do, ac mae'r rhan fwyaf o'r adeiladau hyn wedi'u lleoli mewn ardaloedd gwledig. Rydym yn deall, o ddata Ofcom, fod adeiladau a allai elwa o dechnolegau darparu amgen, ond yn aml nid yw defnyddwyr yn ymwybodol o'r opsiynau sydd ar gael iddynt.

Nodwn raglen waith barhaus Ofcom i fonitro cynnydd y diwydiant telegyfathrebiadau o ran symud cwsmeriaid o'r cysylltiadau llinellau sefydlog copr PSTN presennol i dechnoleg VOIP newydd a'i nod

<sup>6</sup> <https://www.starlink.com/>

<sup>7</sup> Tudalen 30, Adroddiad Cysylltu'r Gwledydd Cymru 2021.

yw sicrhau bod pobl yn gallu gwirededu'r buddion yn gyflym a'u bod yn cael eu diogelu rhag niwed neu darfu gormodol. Mae rhanddeiliaid mewn sawl cyfarfod o Hwb Defnyddwyr Cyfathrebiadau Cymru wedi mynegi pryderon am y diffyg ymwybyddiaeth ymmsg grwpiau agored i niwed ynghylch y broses drosglwyddo a rhai materion cysylltiedig, fel yr angen i gael batri wrth gefn dibynadwy ar gyfer system sy'n seiliedig ar VOIP pan fydd toriadau pŵer yn digwydd. Felly, rydym yn annog Ofcom i weithio'n fwy rhagweithiol i ddod â darparwyr cyfathrebiadau a Llywodraeth y DU at ei gilydd i sicrhau bod cydlyniant priodol i ddiogelu a rhoi gwybod i ddefnyddwyr a sicrhau cyn lleied o darfu â phosibl yn ystod y broses drosglwyddo.

Yn yr un modd, rydym yn nodi bod pryderon yn dechrau dod i'r amlwg ynghylch y bwriad i ddiffodd y rhwydweithiau symudol 2G/3G. Byddwn felly'n monitro ac yn cefnogi gwaith Ofcom wrth gysylltu â'r diwydiant a Llywodraeth y DU i sicrhau bod mesurau priodol ar waith i ddiogelu defnyddwyr a sicrhau bod cyn lleied â phosibl o darfu yn y cyfnod pan fydd defnyddwyr yn symud i wasanaethau 4G a 5G.

### **3. Tegwch i gwsmeriaid.**

Yn ein hymateb i Gynllun Gwaith Ofcom y llynedd, roeddem wedi nodi bod fforddiadwyedd gwasanaethau cyfathrebu yn ystyriaeth bwysig i Bwyllgor Cyngori Cymru. Eleni, byddwn yn parhau i roi cyngor i Ofcom ar y mater hwn, gan ystyried buddiannau dinasyddion a defnyddwyr sy'n byw yng Nghymru. Mae incwm cyfartalog yng Nghymru yn is na chyfartaedd y DU ac mae llawer o gymunedau'n ymbaratoi ar gyfer cynnydd mewn costau tanwydd oherwydd bod y cap ar brisiau ynni defnyddwyr wedi dyblu a chynnydd wedi'i gyhoeddi yng nghyfraddau Yswiriant Gwladol. Fel arwydd o ddifrifoldeb yr argfwng presennol, mae Llywodraeth Cymru wedi dyblu'r taliadau dan ei Chynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf yn ddiweddar ar gyfer pobl sy'n hawlio budd-daliadau fel cymhorthdal incwm, credyd cynhwysol a chredydd treth gwaith<sup>8</sup>. Mewn amgylchedd economaidd o'r fath, bydd yn hanfodol sicrhau y gall pobl ar incwm isel iawn barhau i ddefnyddio'r ystod lawn o wasanaethau cyfathrebu hanfodol.

### **4. Galluogi gwasanaethau di-wifr yn yr economi ehangach.**

Roedd Strategaeth Rheoli Sbectrwym Ofcom a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2020 yn cynnwys ymrwymiad i arloesi pellach wrth ddatblygu bandiau amledd newydd a presennol ar draws y DU yn ogystal ag mewn ardaloedd lleol. Rydym eisoes wedi croesawu'r pwyslais hwn ar arloesi a pharodrwydd Ofcom i ystyried mentrau trwyddedu hyblyg a lleol, gan gynnwys cyfleuster i arbrofi gyda thrwyddedu dros dro i ryddhau sbectrwym ar gyfer datblygu ac arbrofi. Felly, rydym yn falch o weld ymrwymiad Ofcom i adolygu sut bydd sbectrwym amledd uchel iawn yn cael ei reoli, gan adeiladu ar y fframwaith hyblyg sydd eisoes wedi'i ddatblygu fel rhan o'r Strategaeth Sbectrwym. Mae datblygu opsiynau cysylltedd newydd drwy drwyddedau mynediad lleol, yn enwedig mewn rhai o'r ardaloedd gwledig prin eu poblogaeth yng Nghymru, yn dal i fod yn opsiwn ymarferol wrth ddatblygu gwasanaethau a raglenni arloesol gan fod yr ardaloedd gwledig hyn yn cynnig amgylcheddau risg isel gyda phroblemau ymyriant cyfyngedig.

---

<sup>8</sup> [tinyurl.com/4uhvyv8](http://tinyurl.com/4uhvyv8)

##### 5. Cefnogi a datblygu cyfryngau'r DU.

Mae Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus yn dal i chwarae rhan hanfodol yn darparu newyddion a gwybodaeth i wylwyr a gwrandoawyr sy'n byw yng Nghymru, yn enwedig yng nghyswllt gwaith Senedd Cymru a Llywodraeth Cymru. Yn y cyd-destun hwn, edrychwn ymlaen at weld Ofcom yn cyhoeddi, yn ystod y gwanwyn eleni, ymchwil dadansoddi cynnwys ar adrodd newyddion ar rwydweithiau'r DU sy'n cael ei wneud gan Brifysgolion Caerdydd ac Abertawe. Nod yr ymchwil yw darparu asesiad annibynnol o sut mae rhwydweithiau darlledu'r DU yn adrodd ar faterion polisi datganoledig ar deledu ac ar-lein. BBC Cymru Wales yw conglafan y ddarpariaeth hon ac rydym eisoes wedi bod yn ymgysylltu â thîm prosiect Ofcom sy'n gyfrifol am gynnal yr Adolygiad Cyfnodol o'r BBC, cyn adolygiad canol tymor Llywodraeth y DU o Siarter y BBC. Rydym yn nodi y bydd y gwaith hwn yn cynnwys adolygiad o sut mae Ofcom yn rheoleiddio fframwaith rheoleiddio a Thrwydded Weithredu'r BBC.

Yn ein hymateb i ymgynghoriad Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr Ofcom, roeddem yn awgrymu, mewn perthynas â rhwymedigaethau trwydded presennol y BBC ar gyfer Cymru, y "byddai amgylchedd rheoleiddio newydd yn rhoi cyfle i BBC Cymru Wales gael trosolwg mwy cyfannol o'i allbwn, yn enwedig gan fod gwyllo teledu sy'n cael ei ddarlledu'n fyw yn gostwng yn gyffredinol, ac mae gwyllo ar-lein ar-alw, er enghraift drwy BBC iPlayer, yn cynyddu'n sylweddol." Er nad oeddym yn credu y dylid rhoi'r gorau i'r gofynion oriau ar gyfer darparu newyddion a materion cyfoes ar gyfer Cymru, roeddem yn awgrymu, yn achos cynnwys nad yw'n newyddion, y dylai'r darlleddwr, gellid dadlau, gael ei ryddhau i wneud penderfyniadau buddsoddi sy'n dod ag ansawdd uwch i'r sgrin, yn hytrach na chael ei glymu bob amser i ofynion penodol o ran darparu ar sail oriau. Rydyn ni felly'n edrych ymlaen at ymgysylltu â thîm prosiect Ofcom i weld a oes mwy o ddewisiadau creadigol ar gael ar gyfer fframio gofynion nad ydynt yn rhai ynglŷn â newyddion drwy roi mwy o bwyslais ar ofynion adrodd manylach yn hytrach na bodloni cwotâu allbwn sy'n seiliedig ar oriau.

Yn y cyd-destun hwn, mae lluosogrwydd cyflenwad mewn newyddion yn dal yn fater allweddol ac mae'n hanfodol yn ein barn ni bod ITV Cymru Wales a BBC Cymru Wales yn dal i ddarparu gwasanaethau newyddion a materion cyfoes cynhwysfawr i wylwyr a gwrandoawyr yng Nghymru. Felly, byddwn hefyd yn ceisio ymgysylltu â thîm Ofcom sy'n gyfrifol am aildrwyddedu gwasanaeth Sianel 3 i Gymru, yn enwedig mewn perthynas â'r adroddiad y bydd Ofcom yn ei lunio i'r Ysgrifennydd Gwladol erbyn mis Mehefin 2022 ar gynaliadwyedd rhwymedigaethau presennol ITV.

O ran dosbarthu, nodwn fod S4C wedi dod i gytundeb gyda'r BBC ar gyfer cludiad diffiniad uchel ar Freeview a bod y gwasanaeth newydd wedi lansio'n ddiweddar ar Sianel Freeview 110 yng Nghymru. Mae'r gwasanaeth yn gyfyngedig o ddydd Llun i ddydd Gwener gan na ellir ei ddarlledu ond ar ôl 7pm oherwydd cyfyngiadau capaciti amlblecs, ond ar benwythnosau mae'r gwasanaeth ar yr awyr o 2pm ymlaen, sy'n galluogi'r darlleddwr i ddarparu darllediadau o ddigwyddiadau chwaraeon allweddol mewn diffiniad uchel, gan gynnwys Pencampwriaeth Rygbi'r Chwe Gwlad 2022 Guinness.

Rydym yn croesawu cynlluniau parhaus Ofcom i sicrhau bod y gweithlu teledu a radio yn adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth yng Nghymru ac ar draws y DU, o ran ei chymysgedd ethnig ac ieithyddol a chyfran y bobl ag anableddau. Mae hon yn flaenoriaeth bwysig i Ofcom ac rydym yn cefnogi'r uchelgais i fynd i'r afael â meysydd lle mae tangynrychiolaeth a sicrhau rolau gwneud penderfyniadau uwch ar gyfer pobl anabl ar draws y diwydiant a phobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Eleni, rydym wedi cytuno i gymryd rhan mewn cynllun mentora, lle bydd aelod o staff Ofcom, o gefndir ethnig lleiafrifol, yn ymuno â Phwyllgor Cynghori Cymru fel sylwedydd. Credwn y bydd y

person hwn, sydd â phrofiad helaeth iawn ym maes rheoli, yn gwneud cyfraniad gwerthfawr iawn i waith y pwylgor.

#### **6. Gwasanaethu a diogelu cynulleidfa oedd.**

Rydym yn nodi gyda diddordeb fwriad Ofcom i barhau i ehangu dewis gwrandawyr drwy drwyddedu gwasanaethau radio digidol DAB graddfa fach newydd ledled y DU ac adnewyddu'r trwyddedau ar gyfer yr amlblecsau sy'n cludo DAB lleol. Y llynedd, nododd adroddiad Cyfryngau'r Genedl ar gyfer Cymru fod trwyddedau amlblecs radio DAB ar raddfa fach ar gyfer Cymru wedi cael eu dyfarnu i Gaerdydd a'r Cymoedd. Rydym yn cefnogi uchelgais Ofcom yn y maes hwn gan ein bod yn credu y bydd DAB ar raddfa fach yn rhoi llwybr fforddiadwy i orsafoedd radio cymunedol a gorsafoedd radio masnachol llai i drosglwyddo'n ddigidol, gan ddisodli gwasanaethau analog a ddarperir drwy FM yn y pen draw.

Rydym hefyd yn cefnogi nodau Ofcom o weithio ar welliannau i ddarpariaeth radio cymunedol a masnachol ac estyniadau i wasanaethau analog presennol. Mae Ofcom hefyd yn ceisio galluogi darparu cynnwys sain dros IP. Yn ôl adroddiad Cyfryngau'r Genedl, a gyhoeddwyd yr haf diwethaf, roedd gan bron i chwech o bob deg cartref yng Nghymru ar y pryd seinyddion clyfar (57%). Amazon Echo oedd y math mwyaf poblogaidd, a geir yn 72% o'r cartrefi yng Nghymru sydd â seinydd clyfar. Er bod gwasanaethau ffrydio cerddoriaeth fel Spotify yn boblogaidd iawn ymyst ymatebwyr yr arolwg (70%), roedd 61% o'r ymatebwyr hefyd yn gwrando ar radio byw fel hyn.

#### **7. Sefydlu trefn reoleiddio ar gyfer diogelwch ar-lein.**

Wrth i'r ddeddfwriaeth newydd ar Niwed Ar-lein ddod yn gyfraith, rydym yn cydnabod y bydd yn rhaid i Ofcom godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'i rôl arfaethedig yn y dyfodol. Byddwn yn dal i ymgysylltu â rhanddeiliaid yng Nghymru, er enghraift mewn perthynas â diogelwch ar-lein drwy ein haelodaeth o Bartneriaeth Diogelwch y Rhyngrywd Cymru, sy'n cael ei chefnogi gan Lywodraeth Cymru ac sy'n fforwm defnyddiol ar gyfer cyfnewid gwybodaeth ac arferion gorau yn y maes hwn, gan ganolbwytio'n benodol ar ddiogelwch plant a phobl ifanc ar-lein. Mae aelodau Pwyllgor Cyngori Cymru hefyd wedi mynchu seminarau a thrafodaethau ar-lein yn rheolaidd yn y maes hwn, er enghraift drwy fenter Gwneud Synnwyd o'r Cyfryngau Ofcom.

#### **Cynllun Gwaith Ofcom i Gymru**

Byddwn yn dal i gefnogi gwaith tîm Ofcom yng Nghymru drwy helpu i ymgysylltu â rhanddeiliaid. Er enghraift, gan ystyried adolygiad Ofcom o'i Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth â Llywodraeth Cymru, Senedd Cymru a Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru, byddwn yn helpu, os bydd angen, i ymgysylltu â'r rhanddeiliaid allweddol hyn. Byddwn hefyd yn cefnogi Ofcom i ymgysylltu'n ehangach â rhanddeiliaid yng Nghymru, yn enwedig gan ei bod yn ymddangos bod y pandemig yn cilio, gan alluogi cyfarfodydd wyneb yn wyneb i gael eu cynnal yn y dyfodol gobeithio. Byddwn hefyd yn cyngori swyddfa Ofcom Cymru ar faterion fel gwell cysylltedd ar gyfer parciau busnes yng Nghymru, mentrau sy'n cynnwys y diwydiannau creadigol, materion mynediad sy'n ymwneud â chyfathrebu a mentrau fel Tasglu Chwalu Rhwystrau Llywodraeth Cymru ac effaith y Rhwydwaith Rhannu Gwledig ar ddarpariaeth symudol yng Nghymru. Fel yn y blynnyddoedd blaenorol, byddwn yn dal i ymateb i amrywiaeth o ymgynghoriadau Ofcom yn ystod y flwyddyn ac yn helpu Swyddfa Cymru i hybu ymwybyddiaeth o wasanaethau Ofcom yn y Gymraeg.

#### **Pwyllgor Cyngori Cymru Ofcom**

**Chwefror 2022**

